



<b>Cyfarfod:</b>	Bwrdd Pensiwn
<b>Dyddiad:</b>	12/07/2021
<b>Teitl:</b>	Diogelwch seibr
<b>Pwrpas:</b>	Diweddarau'r Bwrdd am wytnwch diogelwch seibr Cyngor Gwynedd
<b>Awdur:</b>	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

## 1. Cyflwyniad

Gyda thoriadau seiber sylweddol yn taro'r penawdau bron yn ddyddiol a disgwyliadau cynyddol y Rheoleiddiwr Pensiynau, mae risg seiber wedi dod yn fater cynyddol amserol i'r CPLIL.

Hyd yn oed cyn i'r pandemig daro, roedd y ffaith ein bod yn byw mewn byd llawer mwy cysylltiedig, gyda data'n cael ei rannu rhwng sefydliadau a gwasanaethau yn symud fwyfwy ar-lein, yn golygu bod bygythiad ymosodiad seiber eisoes yn sylweddol. Mae ychwanegu yr effaith o weithio o adref hefyd yn cynyddu'r bygythiad posibl gan seiber-droseddwy.

Ac nid oes angen i chi edrych yn rhy galed yn y cyfryngau y dyddiau hyn i weld yr aflonyddwch y gall ymosodiadau seiber ei achosi. Mae porthwyr newyddion yn tynnu sylw'n rheolaidd at yr ymosodiadau ransomware diweddaraf, gwrthod gwasanaeth, gwe-rwydo neu ymosodiadau "diwrnod sero". Mae'r rhain i gyd yn rhedeg y risg o golli data aelodau, colled ariannol, tarfu ar wasanaeth a difrod enw da i sefydliadau. Ac nid yw sefydliadau'r sector cyhoeddus wedi bod yn rhydd rhag y bygythiad - mewn gwirionedd, maent yn aml yn cael eu hystyried yn brif darged.

## 2. Pam mae'r CPLIL o bosibl yn agored i ymosodiad?

Yn sylfaenol, mae gan holl gronfeydd CPLIL lawer iawn o ddata ac asedau personol y gellir eu hecsbloetio sy'n brif darged i dwyllwyr, sgamwyr a seiber-droseddwy. Mae cronfeydd hefyd yn gweithio gydag ystod eang o ddarparwyr a chyflenwyr sy'n trin eu data sensitif (e.e. cyflogwyr, darparwyr CGY, darparwyr meddalwedd, actiwariaid, ac ati).

## 3. Beth yw'r sefyllfa yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd?

Gan mai Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, mae adran TG y Cyngor yn gofalu am gymorth TG. Mae'r Cyngor yn cymryd Seiber ddiogelwch o ddifrif. Mae'r adroddiad yn **Atodiad A** a baratowyd gan Huw Ynyr, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Technoleg Gwybodaeth ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 15/07/2021 yn rhoi gwybodaeth am risgiau seiber sy'n wynebu'r Cyngor a'r camau a gymerwyd i liniaru'r risgiau hyn.